# CYFLWYNIAD

Aeth dros chwarter canrif heibio ers cyhoeddi yr ail gyfrol o'r *Bywgraffiadur Cymreig (1941-50)*. Un rheswm dros yr oedi yw fod y gyfrol hon yn delio â dau ddegawd, sef 1951-70. Mae'r dystiolaeth yn glir fod y *Bywgraffiadur* wedi ennill ei le fel rhan angenrheidiol o gefndir ysgolheictod Cymreig, yn cynnwys data a fu'n gymorth i haneswyr, llenorion a phawb sydd â diddordeb yn hanes y genedl. Mae'r gwaith ymchwil wedi dechrau eisoes ar y bedwaredd gyfrol.

Fel yn y gorffennol, mae'r fenter wedi dibynu ar lu o ysgrifenwyr – yn aml yn gweithio yn ddidâl – ac yn arbennig, wrth gwrs, ar y golygyddion. Hyd at ei farw bu Dr. E. D. Jones wrth y gwaith yn ddiflino, a chynorthwywyd ef yn ffyddlon gan Dr. Auronwy James. Cymerodd Dr. Brynley Roberts y gwaith drosodd fel golygydd i orffen y gyfrol hon. Yr ydym yn ddyledus dros ben iddynt am roddi cymaint o'u hamser a'u hegni ar ran y Gymdeithas; mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi bod yn ail gartref i'r Gymdeithas yng ngwir ystyr y gair.

Mae'n dyled yn fawr hefyd i Mr. Gwyn Davies am drefnu'r argraffu a'r cyhoeddi, ac i bawb sydd wedi rhoi help llaw gyda'r proflenni. Ar ran y Gymdeithas mae'n fraint fawr i gyflwyno'r gyfrol hon fel pennod yn hanes ein cenedl.

Emrys Jones
*Llywydd*